Nod y nodiadau cyfarwyddyd hyn yw cynorthwyo staff a myfyrwyr sy'n cwblhau cais am gymeradwyaeth foesegol.

Rhan Un

1A: Gwybodaeth Gyffredinol

Teitl y Prosiect

Dylai hwn grynhoi hanfod y prosiect i gynulleidfa anarbenigol. Arhoswch yn gyson drwyddi draw. Os ydych chi'n bwriadu defnyddio fersiwn fyrrach o'r teitl (er enghraifft ar y ffurflenni caniatâd neu'r ddalen wybodaeth) yn ogystal â theitl fformat llawn prosiect, cynhwyswch y ddau yn y blwch hwn.

Dyddiad Dechrau Disgwyliedig

Rhaid i recriwtio cyfranogwyr a/neu gasglu data beidio â dechrau nes bod cymeradwyaeth foesegol wedi'i rhoi a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y dyddiad dechrau disgwyliedig. O dan amgylchiadau eithriadol, gall fod yn bosibl i brosiect dderbyn ystyriaeth frys (h.y. i fodloni dyddiad cau corff ariannu). Dylai unrhyw gais am adolygiad brys gael ei gyflwyno ar ffurf nodyn cyflwyno'r cais ac esbonio'r rheswm am ofyn am hyn.

Corff Ariannu

Rhowch fanylion unrhyw gorff rydych wedi derbyn neu y byddwch yn derbyn arian oddi wrtho mewn perthynas â'r prosiect hwn.

Ymchwilydd/ymchwilwyr eraill sy'n gweithio ar y prosiect

Dylech restru pob cydweithredwr / ymchwilydd arall.

**Os myfyrwyr yw unrhyw gydweithredwyr** rhowch fanylion y cymwysterau maen nhw'n gweithio tuag atynt.

**Os oes unrhyw gydweithredwyr o sefydliadau eraill** rhowch fanylion eu sefydliad ac esboniwch eu rôl yn y prosiect hwn.

Nodyn: Yn gyffredinol, pan gaiff prosiect ei gynnal mewn cydweithrediad â phrifysgol arall, byddai cymeradwyaeth foesegol fel arfer yn cael ei cheisio oddi wrth y sefydliad lle mae'r Prif Ymchwilydd (PY) wedi'i leoli.

A fydd yr astudiaeth yn cynnwys cleifion neu staff y GIG?
Bydd angen cymeradwyaeth y GIG ar y mwyafrif o astudiaethau sy'n cynnwys cleifion neu staff y GIG ac ni fydd angen cymeradwyaeth ychwanegol gan Met Caerdydd. Os ydych yn ansicr a fydd angen cymeradwyaeth y GIG ar eich prosiect chi, cysylltwch â Chadeirydd pwyllgor moeseg ymchwil eich ysgol.

Os bydd angen i chi gyflwyno'ch cais i'r GIG, atodwch gopi o'ch ffurflen cymeradwyaeth foesegol Met Caerdydd i'w chadw ar gofnod gan bwyllgor moeseg ymchwil yr Ysgol. Bydd pwyllgor eich Ysgol yn derbyn y cais GIG a gwblhawyd a llythyr cymeradwyaeth yn lle cymeradwyaeth Met Caerdydd.

Dan rai amgylchiadau, ni fydd y GIG yn dosbarthu'ch prosiect fel ymchwil a bydd yn dychwelyd eich cais. Os felly mae'n rhaid i chi geisio cymeradwyaeth foesegol gan Met Caerdydd trwy gyfrwng pwyllgor eich

Ysgol. Bydd pwyllgor eich Ysgol yn gofyn am weld y llythyr sy'n cadarnhau'r eithriad rhag prosesau moeseg y GIG.

<u>A fydd yr astudiaeth yn cynnwys samplau dynol a/neu linellau celloedd dynol?</u>

Ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys defnyddio neu storio samplau o feinwe ddynol neu ddefnyddio samplau meinwe wedi'u storio, rhaid i brosiectau gydymffurfio â'r holl godau ymarfer sy'n ymwneud â chymryd, defnyddio a storio meinwe ddynol.

<u>1B: A ydy'ch prosiect yn dod yn gyfan gwbl i mewn i un o'r categorïau canlynol?</u>

<u>Crynodeb annhechnegol o'r prosiect</u>
Rhowch gyfiawnhad academaidd a chefndir yr astudiaeth a nodwch y manteision a ragwelwch o ymchwilio i'ch maes dewisol. Bydd o gymorth efallai i gyfeirio at astudiaethau cysylltiedig.

<u>1C: A ydy'ch prosiect yn dod yn gyfan gwbl i mewn i un o'r categorïau canlynol: Prosiect nad yw'n orfodol mewn ymarfer proffesiynol ac sydd wedi ennill cymeradwyaeth foesegol allanol oddi wrth gorff heblaw'r GIG</u>
Mae Met Caerdydd yn derbyn cymeradwyaeth foesegol a enillwyd oddi wrth sefydliad arall os ydym wedi ein sicrhau'n rhesymol bod trylwyrdeb a chadernid y broses o leiaf yn hafal â'n proses ni.

At ei gilydd, pan gaiff prosiect ei gynnal mewn cydweithrediad â phrifysgol arall, byddai cymeradwyaeth moeseg fel arfer yn cael ei cheisio oddi wrth y sefydliad lle mae'r PY wedi'i leoli.

Os yw'ch prosiect wedi cael ei gymeradwyo'n rhywle arall, nodwch ba gorff sydd wedi'i gymeradwyo yn y crynodeb annhechnegol a chyflwynwch gopi o'r cais moeseg a gymeradwywyd gyda'ch ffurflen. Os na allwch gyflenwi copi am unrhyw reswm, e.e. roedd y broses gymeradwyo'n electronig yn unig, esboniwch hyn pan gyflwynwch eich ffurflen i'r panel moeseg.

Mae'n bosibl y bydd aelodau'r Panel yn gofyn am gael gweld copïau o ddogfennaeth arall sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.

<u>1D: Casglu a Storio Data</u>

<u>Pa fathau o ddata fyddwch yn ei gasglu neu'n ei greu?</u>
Rhowch fanylion mathau a swm y data y byddwch chi'n ei gasglu neu'n ei greu fel rhan o'r prosiect. Rhowch gyfiawnhad dros pam rydych wedi dewis fformatau penodol.

<u>Sut fyddwch chi'n rheoli mynediad i'r data a'i ddiogelwch?</u>
Er mwyn cydymffurfio â GDPR y DU a'r holl gyfreithiau Diogelu Data perthnasol, mae'n ofyniad gan Met Caerdydd bod unrhyw ddata nad yw'n ddi-enw a gynhyrchir gan fyfyrwyr ar gyrsiau a addysgir yn cael ei storio ar eu cyfrif myfyriwr OneDrive Met Caerdydd (cyfleuster storio'r Brifysgol yn y cwmwl) a bod yr holl ddata sy'n cael ei gadw mewn mannau eraill yn cael ei ddileu, oni tynnir yr enwau ohono. Fodd bynnag mae'n arfer da i bob ymchwilydd (myfyrwyr a staff) storio unrhyw ddata, gan gynnwys data y tynnwyd yr enwau ohono, ar OneDrive, gan fod hwnnw'n cael ei storio wrth gefn yn rheolaidd. Ni ddylech byth storio'ch data ar luniadur, gyriant caled cyfrifiadur na dyfais storio allanol yn unig.

Mae'n arfer da tynnu enwau o'r holl ddata sy'n ymwneud â chyfranogwyr. Dylech gadarnhau a ydych yn bwriadu gwneud hyn ac, os nad ydych yn bwriadu gwneud, roi rhesymau pam. Pan na thynnir enwau o

ddata cyfranogwyr, rhaid gofyn am arweiniad oddi wrth Dîm Diogelu Data'r Brifysgol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith Diogelu Data.

Rhowch fanylion sut rydych yn bwriadu cadw'r data yn ddiogel, gan gynnwys gwybodaeth am ble rydych yn bwriadu storio'ch data a nodi pwy fydd â mynediad iddo. Os ydych chi'n casglu data "yn y maes" dylech roi manylion sut y byddwch yn sicrhau ei drosglwyddo'n ddiogel i'ch prif system ddiogel.

<u>A fydd y data sy'n cael ei gasglu'n dod o dan brotocolau cadw data unrhyw rai o'r cyrff allanol a restrir?</u>
Os atebwch Bydd i'r cwestiwn hwn, mae'n ofynnol i chi lunio cynllun storio data a'i gyflwyno ochr yn ochr â'ch cais moeseg. Dylai'r cynllun ymhelaethu ar yr atebion rydych wedi eu rhoi i'r ddau gwestiwn blaenorol a dangos sut byddwch chi'n bodloni disgwyliadau'r corff allanol dan sylw.

<u>Rhan Dau</u>

<u>A1 A fyddwch yn defnyddio protocol cymeradwy yn eich prosiect?</u>
Gall statws Protocol Cymeradwy gael ei ddyfarnu i rai gweithdrefnau safonedig penodol sydd i'w defnyddio mewn prosiectau ymchwil o dan oruchwyliaeth aelodau dynodedig o staff academaidd. Yn gyffredinol mae hyn yn symleiddio'r broses ymgeisio. Dylai rhestr o brotocolau cymeradwy a goruchwyliwyr dynodedig fod ar gael drwy Gydlynydd Moeseg eich Ysgol. Dylai myfyrwyr gydgysylltu â'u goruchwyliwr i benderfynu a ydynt yn gymwys i ddefnyddio protocol cymeradwy yn eu hastudiaeth.

<u>A2 Os byddwch, rhowch enw a chod y protocol cymeradwy sydd i'w ddefnyddio</u>
Sicrhewch fod y protocol cymeradwy yn gyfredol adeg y cais.

<u>A3 Disgrifiwch ddyluniad yr ymchwil a gaiff ei defnyddio yn eich prosiect</u>
Disgrifiwch ddyluniad cyffredinol eich prosiect a'r dull casglu data a gaiff ei ddefnyddio.

Efallai y bydd natur eich prosiect yn golygu y bydd newidiadau yn y dull neu'r cyfeiriad yn ofynnol wrth i'r ymchwil ddatblygu. Nodwch ai dyma'r achos a disgrifiwch y dull a'r cyfeiriad cychwynnol mor llawn â phosibl.

Rhowch grynodeb o natur cyfranogiad y cyfranogwyr er mwyn i'r pwyllgor ddeall yn union beth fydd yn digwydd i'r cyfranogwr.

Dylai'r pwyntiau canlynol gael eu hegluro hefyd:
- Pam mae ei angen
- Ble bydd y rhyngweithio yn digwydd
- Am faint fydd pob sesiwn yn para
- Faint o sesiynau bydd yn rhaid i gyfranogwyr eu mynychu
- Beth fydd hyd y cyfnodau rhwng sesiynau

Rhowch fanylion llawn unrhyw daliadau sy'n cael eu cynnig i gyfranogwyr gan gynnwys:
- <u>Talu treuliau</u>: Fel arfer bydd y pwyllgor yn cytuno i ad-daliad treuliau rhesymol am gostau teithio a lluniaeth.
  NODYN: Er mwyn talu treuliau bydd yn ofynnol i chi ddilyn gweithdrefnau ariannol safonol Met Caerdydd. Dylech sicrhau felly bod cyfranogwyr yn cwblhau'r holl waith papur gofynnol a'ch bod yn cadw cofnod o'r holl gytundebau mewn perthynas â thalu treuliau. Gallai methu â chydymffurfio â gweithdrefnau ariannol arwain at yr Adran Gyllid yn methu anrhydeddu hawliadau a wneir.

- <u>Tâl am ymrwymiad amser</u>: Fel arfer bydd y pwyllgor yn cytuno i hyn pan ddisgwylir i'r ymrwymiad amser fod yn sylweddol. Cyfradd briodol fyddai cyfradd ddisgwyliedig arfer y cyfranogwr yr awr. Lle nad yw'r cyfranogwr wedi'i gyflogi, byddai taliad sy'n hafal ag o leiaf y cyflog byw cenedlaethol safonol yn cael ei ddisgwyl.
- <u>Cymhellion ariannol</u>: Bydd y pwyllgor yn craffu'n fanwl ar unrhyw gymhellion ariannol y bernir eu bod uwchlaw gwneud yn iawn am yr ymrwymiad amser, a hynny er mwyn osgoi sefyllfaoedd lle caiff cyfranogwyr eu hannog i ymgymryd â risgiau a allai fod fel arall yn groes i'w barn ddoeth. NODYN: Os ydych yn bwriadu cynnig taliadau o'r math hwn dylech fel arfer cynnig talebau yn hytrach na thaliadau arian parod, ac ystyried yn ofalus pa dalebau a gaiff eu cynnig. Nid oes gan y Brifysgol "restr gymeradwy" o allfeydd mae'n dderbyniol cynnig talebau amdanynt, ond bydd paneli'n ei ystyried yn arfer da i beidio â chynnig talebau am nwyddau a/neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Er enghraifft, os bydd eich prosiect yn cynnwys ymchwil i gynhyrchion a fyddai o fudd i rieni plant bach, byddech yn osgoi cynnig talebau am fanwerthwyr neu weithgynhyrchwyr y mathau hyn o gynhyrchion. Ni ddylech byth gynnig unrhyw dalebau am nwyddau neu wasanaethau a gynigir gan bartner yn y prosiect.
  Fel arall, yn hytrach na chynnig cymhelliant i'r cyfranogwr, gallech roi swm a gytunwyd i achos teilwng.

Rhaid i fanylion llawn unrhyw daliadau sydd i'w gwneud gael eu cynnwys yn y Ddalen Wybodaeth Cyfranogwyr.

Os bydd eich gwaith casglu data yn golygu defnyddio holiadur, dylech darparu copi o'r holiadur gyda'ch cais. Mewn achosion lle nad yw'r holiadur wedi'i bennu'n derfynol ero dylech roi enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau y bydd cyfranogwyr yn eu hateb. Yn yr un modd, os bydd eich gwaith casglu data yn cynnwys defnydd grwpiau ffocws, dylech ddarparu manylion y pynciau a gaiff eu trafod.

Disgrifiwch y dulliau a'r technegau a gaiff eu defnyddio wrth ddadansoddi'r canlyniadau.

At ei gilydd, mae'r Brifysgol yn disgwyl i ymchwilwyr fabwysiadu ymagwedd gynhwysol at recriwtio cyfranogwyr. Byddai o gymorth felly i roi manylion unrhyw gyfyngiadau ar ba grwpiau all gyfranogi yn y prosiect a chynnwys rhesymau dros fabwysiaud'r cyfyngiadau hyn.

Yn achos prosiectau sy'n cynnwys grwpiau, rhowch fanylion beth fydd yn digwydd i gyfranogwyr sy'n cael eu heithrio.

Am brosiectau ymchwil feintiol, nodwch a rhowch gyfiawnhad llawn am nifer y cyfranogwyr rydych yn bwriadu eu recriwtio.

<u>A4 A fydd y prosiect yn cynnwys ymchwil ddichellgar neu gudd?</u>

ac

<u>A5 Os bydd, rhowch resymeg dros ddefnydd ymchwil ddichellgar neu gudd</u>
Fel arfer mae ymchwil ddichellgar neu gudd yn annymunol am ei bod yn torri egwyddor cydsyniad gwirfoddol ar sail gwybodaeth, ac mewn rhai amgylchiadau gall fod yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, efallai mai dyma'r unig ffordd ymarferol o gasglu gwybodaeth bwysig; for enghraifft, pan fyddai ymwybyddiaeth o gael eu gwylio yn newid ymddygiad y gwrthrychau'n ddigon i annilysu'r ymchwil. Er mwyn cael eu cymeradwyo, rhaid i brosiectau fodloni'r amodau dilynol yn llawn:

1. Mae achos cryf bod yr ymchwil yn werth ei gwneud.

2. Mae achos cryf bod ymchwil gudd yn hanfodol i gaffael yr wybodaeth ofynnol (h.y. nad oes unrhyw ddulliau amgen ar gael nad ydynt yn ddichellgar neu'n gudd).
3. Ar ôl i'r cyfnod arsylwi cudd gael ei gwblhau, bydd angen cytundeb pob cyfranogwr cyn y gall unrhyw ddata sy'n ymwneud â'r unigolyn gael ei gynnwys yn nadansoddiad yr ymchwil. Bydd hyn yn gymwys nid unig mewn achosion lle mae'n anymarferol (er enghraifft, lle arsylwyd ar fan cyhoeddus gyda gwrthwychau byrhoedlog mae'n amhosibl eu holrhain) ac na all data a gasglwyd gael ei gysylltu ag unrhyw unigolyn a arsylwyd.
4. Ni fydd unrhyw gofnod parhaol yn cael ei gadw o unrhyw wybodaeth bersonol a allai o bosibl arwain at adnabod cyfranogwr, oni bai y rhoddwyd gwybod i'r unigolyn y cafwyd yr wybodaeth yn ystod yr ymchwil ac wedi cytuno iddi gael ei chadw.

<u>A6 A fydd gan y prosiect oblygiadau sensitif o ran diogelwch?</u>

<u>Ac</u>

<u>A7 Os bydd, esboniwch beth ydynt a'r mesurau sy'n cael eu cynnig i ymdrin â nhw</u>

Os credwch y gall fod gan eich ymchwil oblygiadau sensitif o ran diogelwch dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd â Pholisi Prevent Met Caerdydd ac yn ei ddilyn. Mae ar gael o Hyb Polisi Met Caerdydd.

Rhaid i chi roi manylion yn yr adran hon am y broses rydych yn bwriadu ei dilyn i sicrhau diogelwch eich deunydd ymchwil a'r camau rydych yn bwriadu eu cymryd i sicrhau diogelwch a llesiant eich cyfranogwyr ac ymchwilwyr.

Mae prifysgolion yn chwarae rôl bwysig mewn ymgymryd ag ymchwil mewn meysydd sy'n ymwneud â diogelwch, terfysgaeth a chydnerthedd, a'r broses o radicaleiddio. Fodd bynnag, mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth ymgymryd ag ymchwil o'r fath i osgoi unrhyw dorri'r gyfraith. Gall deunydd ymchwil ar y cyfryw bynciau fod yn agored i'w gamddehongli gan yr awdurdodau gan roi ymchwilwyr mewn perygl o gael eu herlyn o dan ddeddfwriaeth wrthderfysgaeth. Fe'ch cynghorir i gyfeirio at UUK Guidance Oversight of Security-Sensitive Research Material in UK Universities a cheisio arweiniad oddi wrth Gydlynydd Prevent y Brifysgol i lywio cynllun eich prosiect.

Bydd y Cydlynydd Prevent yn cadw cofnod o'r holl ymchwil sensitif i ddiogelwch sy'n cael ei chynnal gan y Brifysgol a gall fod ofynnol iddo/iddi ddatgelu manylion fel rhan o ddarparu sicrwydd bod y Brifysgol yn cydymffurfio â Dyletswydd Prevent neu i gynorthwyo'r Heddlu neu awdurdodau statudol eraill wrth ganfod troseddau.

<u>B1 Pa brofiad blaenorol sydd gennych o ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol sy'n berthnasol i'r prosiect hwn</u>

a

<u>B2 Pa brofiad blaenorol sydd gan eich goruchwyliwr o ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol sy'n berthnasol i'r prosiect hwn?</u>

Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi manylion profiad blaenorol o ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol sy'n berthnasol i'r prosiect arfaethedig. Yn achos prosiect gan fyfyrwyr, dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu mewn perthynas â'r goruchwyliwr.

Bydd aelodau'r pwyllgor moeseg yn cyfeirio at yr wybodaeth hon i sicrhau bod gan y PY (a/neu'r goruchwyliwr yn achos prosiectau myfyrwyr) brofiad perthnasol ddigonol o'r math o brosiect sydd i'w

gynnal. Gan hynny dylai gwybodaeth gael ei darparu sy'n dangos profiad blaenorol sy'n berthnasol i'r cais hwn. Dylai hyn gynnwys manylion penodol defnydd blaenorol ar yr un dyluniad prosiect, yn enwedig pan fydd y prosiect wedi arwain at allbynnau cyhoeddedig. I oruchwyliwyr, byddai manylion penodol goruchwylio prosiectau tebyg blaenorol o gymorth.

<u>C1 Pa risgiau posibl ydych chi'n eu rhagweld?</u>
Disgrifiwch y peryglon, risgiau ac effeithiau andwyol posibl i gyfranogwyr yn yr ymchwil, gan bennu'r tebygolrwydd a difrifoldeb ym mhob achos. Ar gyfer ymchwil sy'n golygu cyfweliadau a holiaduron, dylai unrhyw risg o effeithiau andwyol seicolegol neu gymdeithasol gael eu hystyried.

Os bydd dyluniad yr astudiaeth wedi'i lywio gan gyfrifiadau pŵer ystadegol, dylai gwybodaeth am sail gwneud hyn gael ei darparu.

Os oes modd, dylech gwblhau Dadansoddiad Risg safonol Met Caerdydd am y prosiect. Fodd bynnag dylai hyn fod **yn ogystal â** darparu ymateb llawn i'r cwestiwn hwn.

Os bydd eich prosiect yn cynnwys gweithdrefnau mewnwthiol, rhowch fanylion fel:

- ble bydd y weithdrefn yn digwydd;
- pa gyfleusterau sydd ar gael;
- pa faint sampl fydd yn cael ei gymryd (e.e. faint o waed a gymerir, maint dos a gaiff ei weinyddu);
- ble caiff samplau eu storio a sut y cânt eu hadnabod;
- pwy fydd â mynediad i'r samplau.

Ystyriwch hefyd unrhyw risgiau posibl y gallech chi gael eich datguddio iddynt. Dylai'r rhain gynnwys risgiau o ganlyniad i weithdrefnau sy'n cael eu cynnal (e.e. casglu samplau gwaed, defnyddio offer) neu i'r amgylchedd y byddwch yn gweithio ynddo (e.e. sefyllfaoedd gwaith maes).

Yn olaf, dylech ystyried unrhyw risgiau i'r prosiect ei hun.

<u>C2 Sut fyddwch chi'n delio â'r risgiau posibl?</u>
Esboniwch y dulliau a ddefnyddiwch i leihau'r risgiau a nodir yn C1 a chamau a gaiff eu cymryd i sicrhau diogelwch cyfranogwyr os bydd unrhyw rai o'r risgiau a nodwyd yn digwydd

Cael cydsyniad gan gyfranogwyr

Cydnabyddir yn gyffredinol bod moeseg ymchwil gadarn yn mynnu cydsyniad gwirfoddol cyfranogwyr dynol. Fel arfer rhaid bod gan ddarpar gyfranogwyr mewn prosiectau ymchwil hawl i ddewis a fyddant yn cyfranogi neu beidio. Mae cydsynio'n llawn ar sail gwybodaeth yn y cyd-destun hwn yn golygu cydsyniad a roddir o'u gwirfodd gyda dealltwriaeth briodol o natur a chanlyniadau'r hyn sy'n cael ei fwriadu a beth sy'n debygol o ganlyniad.

Argymhellir y broses ganlynol i sicrhau bod hyn yn ei le:

- Dylai esboniad llafar gael ei roi i bob cyfranogwr am beth fydd ynghlwm wrth gyfranogiad yn y prosiect.
- Yna byddai dalen wybodaeth yn cael ei rhoi i bob cyfranogwr sy'n esbonio mewn termau syml, annhechnegol, cefndir y prosiect, y gweithdrefnau dan sylw, unrhyw risgiau posibl a'r buddion y gobeithir amdanynt.
- Dylai amser rhesymol gael ei roi i'r cyfranogwr ystyried yr wybodaeth hon ac ymgynghori ag eraill yn ôl yr angen.
- Ac eithrio yn achos astudiaethau ar sail holiadur, dylid gofyn i'r cyfranogwr lofnodi ffurflen gydsynio. Mewn achosion pan mai naill ai plant neu oedolion "bregus" yw'r cyfranogwyr, dylai cydsyniad fel arfer gael ei sicrhau gan brosci wedi'i rymuso'n briodol gyda'r cyfranogwr yn rhoi cytundeb ar sail gwybodaeth.

Ar gyfer ymchwil sy'n cynnwys defnydd samplau o feinwe ddynol neu ddefnydd samplau meinwe wedi'u storio, rhaid i chi gyfeirio at ganllawiau'r Brifysgol mewn perthynas â gweithdrefnau HTA. Am fanylion pellach cysylltwch ag Unigolyn Dynodedig HTA y Brifysgol, Dr Claire Kelly.

Fel arfer bydd angen cydsyniad ysgrifenedig cyfranogwyr am bob astudiaeth ac eithrio'r rhai sy'n seiliedig ar holiaduron yn unig ac nad ydynt y casglu data sensitif. Yn yr achosion hyn, mae llenwi a chyflwyno holiadur yn cyfleu cydsyniad a dylai hyn gael ei ddatgan ar y ddalen wybodaeth a roddir i gyfranogwyr.

Y safbwynt safonol yng nghyngor moeseg y mwyafrif o gymdeithasau dysgedig yw y dylai cydsyniad ar sail gwybodaeth gael ei sicrhau lle bynnag y bo modd. Bydd eich Ysgol efallai'n cynnig canllawiau am sefyllfaoedd ymchwil lle nad yw confensiynau sicrhau cydsyniad ar sail gwybodaeth yn berthnasol fel arfer, neu lle bydd dull gwahanol o gael cydsyniad ysgrifenedig yn cael ei dderbyn yn gyffredinol.

Os bwriedir cael cydsyniad llafar, ac nid cydsyniad ysgrifenedig, nodwch hyn a llenwch y ddalen wybodaeth cyfranogwyr gyda'r wybodaeth rydych yn bwriadu ei rhoi i gyfranogwyr ar lafar.

Os nad ydych yn bwriadu sicrhau cydsyniad o gwbl mae'n rhaid i chi roi cyfiawnhad llawn am hyn. Sylwch fod angen cyfiawnhad cryf, naill ai yn nhermau buddion yr astudiaeth, neu'r dull ymchwil, cyn y bydd pwyllor moeseg ysgol yn ystyried caniatáu i brosiect fynd yn ei flaen heb gydsyniad ar sail gwybodaeth.

Os bwriedir cynnal ymchwil ymhlith oedolion nad ydynt efallai yn gallu rhoi cydsyniad llawn ar sail gwybodaeth ar eu rhan eu hun (e.e. pobl â dementia), rhaid i gyfiawnhad am hyn gael ei ddatgan yn glir yn eich cais am gymeradwyaeth foesegol.

Er na all cydsyniad gael ei roi ar ran rhywun arall, mae'n bwysig hysbysu a/neu sicrhau cefnogaeth y sawl sy'n ymwneud â gofal yr unigolion bregus.

Lle bo'n briodol, dylai llythyron at rieni, athrawon a staff meddygol gael eu darparu.

Dylech gadw mewn cof fod cydsyniad yn dod yn annilys o dan GDPR lle bo unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol:

- Mae gennych unrhyw amheuon ynghylch a yw rhywun wedi cydsynio;
- Nid yw'r unigolyn yn sylweddoli ei fod wedi cydsynio;
- Nid oes gennych gofnodion clir i ddangos y cafwyd cydsyniad;
- Nid oes unrhyw ddewis rhydd gwirioneddol o ran optio i mewn;
- Byddai'r unigolyn yn cael ei gosbi am wrthod cydsyniad;
- Mae anghydbwysedd pŵer amlwg rhwng yr ymchwilydd a'r unigolyn;
- Roedd cydsyniad yn rhagofyniad gwasanaeth, ond nid ar gyfer y gwasanaeth hwnnw y mae'r prosesu o reidrwydd;
- Cafodd y cydsyniad ei bennu gyda thelerau ac amodau eraill;
- Roedd y cais am gydsyniad yn annelwig neu'n anneglur;
- Defnyddioch chi flwch optio i mewn wedi'i rhag-dicio neu ddulliau eraill o gydsynio diofyn;
- Ni chafodd y sefydliad sy'n cynnal yr ymchwil ei enwi'n benodol;
- Ni ddywedoch wrth gyfranogwyr am eu hawl i dynnu cydsyniad yn ôl;
- Ni all cyfranogwyr dynnu cydsyniad yn ôl yn hawdd;
- Mae eich dibenion neu weithgareddau wedi newid tu hwnt i'r cydsyniad gwreiddiol.

<u>Prosiectau sy'n cynnwys cyfranogwyr o dan 18 oed</u>

Yn gyffredinol, mae'r Brifysgol yn gofyn bod cytundeb y plentyn a chydsyniad y rhiant neu warcheidwad wedi'u sicrhau cyn cychwyn y prosiect. Dylai dalenni gwybodaeth ar wahân gael eu darparu ar gyfer rhieni a phlant i gymryd i ystyriaeth eu galluoedd gwybyddol gwahanol.

Dylai cytundeb plentyn gael ei geisio mewn ffordd sy'n briodol i oedran a gallu'r plentyn. Er enghraifft, yn achos plant iau, gallai hyn gynnwys defnydd lluniau i dangos sut mae'r plentyn yn teimlo am gyfranogi yn y prosiect

**Prosiectau sy'n cynnwys plant ifanc iawn:** Nid oes angen cytundeb plant mewn achosion lle mae'r plant dan sylw yn rhy ifanc i ddeall esboniad syml o'r ymchwil a gaiff ei chynnal e.e. prosiectau arsylwi sy'n cynnwys plant ifanc iawn sy'n llai na 18 mis oed. Mewn achosion o'r fath, gall y prosiect fynd yn ei flaen gyda chydsyniad y rhieni yn unig.

Mae **cyfranogwyr sydd rhwng 16 a 18 mlwydd oed** dan oed, ond yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn gymwys at ddibenion cael cydsyniad. Fodd bynnag, bydd efallai'n ddymunol iawn cael cydsyniad rhieni am rai prosiectau sy'n cynnwys cyfranogwyr yn y grŵp oedran hwn. Mewn achosion eraill, efallai bod yr ymchwil dan sylw yn amlwg yn ddiniwed ac ni fydd angen cydsyniad rhieni. Os yw'ch prosiect yn y cynnwys cyfranogwyr yn y grŵp oedran hwn ac nid ydych yn bwriadu gofyn am gydsyniad rhieni, cyfiawnhewch hyn.

**Prosiectau mewn ysgol / cymuned:** Yn aml, bydd prosiectau sy'n cynnwys cyfranogwyr o dan 18 oed yn cynnwys grŵp o ddisgyblion o ysgol neu grŵp o fynychwyr clwb ieieunctid, er enghraifft. Mewn achosion o'r fath, dylai cydsyniad gael ei geisio'n ysgrifenedig oddi wrth bennaeth yr ysgol neu'r sefydliad y daw'r cyfranogwyr ohono. Dylai'r llythyr sy'n gofyn am gydsyniad gynnwys manylion y prosiect (gan gynnwys y cwestiynau a gaiff eu gofyn i'r cyfranogwrr) a chyfranogiad yr ysgol / grŵp. Bydd angen i'r

pwyllgor weld y cydsyniad ysgrifenedig sydd wedi'i roi gan bennaeth y sefydliad cyn rhoi cymeradwyaeth foesegol i'ch prosiect.

Yn achos prosiectau a seilir mewn ysgol neu gymuned, fel arfer bydd y Brifysgol yn disgwyl i chi sicrhau cydsyniad ar sail gwybodaeth gan rieni yn ogystal â chydsyniad pennaeth y sefydliad. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai hyn, mewn rhai achosion, fod yn faich gweinyddol sylweddol ac arwain at anawsterau i'r ysgol yn aml. Felly, mewn prosiectau sy'n delio â materion a allai gael eu hystyried yn "gyhoeddus" e.e. trafodaethau am farn am gerddoriaeth neu chwaraeon, gall cydsyniad gael ei sicrhau oddi wrth pennaeth y sefydliad yn unig gan weithredu in loco parentis. I brosiectau sy'n delio â materion â ffocws ar fywyd personol neu deuluol cyfranogwyr, oherwydd natur y pwnc, mae'n rhaid i gydsyniad rhieni gael ei geisio. Ym mhob achos, mae'n rhaid i gytundeb y cyfranogwyr eu hunain gael ei sicrhau.

Am wybodaeth bellach am brosiectau ymchwil sy'n cynnwys plant, cyfeiriwch at y canllawiau i ymchwilwyr a gynhyrchwyd yn y National Children's Bureau sydd ar gael o adran "ymchwil" gwefan yr NCB, www.ncb.org.uk .

Mae ffurflen gydsynio enghreifftiol ar gael o wefan Met Caerdydd.

<u>Dalen Wybodaeth Cyfranogwyr</u>

Rhaid i gopi o'r ddalen wybodaeth cyfranogwyr byddwch yn ei defnyddio gael ei chyflwyno gyda'ch ffurflen gais. Mae'r rhain yn hanfodol ac mae'n rhaid eu cwblhau'n ofalus.

Dylai'r ddalen wybodaeth gael ei hysgrifennu'n glir gan ddefnyddio geiriau, brawddegau a pharagraffau syml. Dylech osgoi defnyddio jargon ac acronymau a dylai fod esboniad clir o unrhyw rai sy'n cael eu defnyddio. Fel canllaw, dylech ddisgwyl i rywun deng mlwydd oed allu darllen a deall yr wybodaeth. Dylech wneud yr wybodaeth mor bersonol â phosibl gan ddefnyddio geiriau fel ni, chi a'ch plentyn chi yn hytrach na defnyddio termau amhersonol fel cyfranogwr neu fyfyriwr.

Mae'n arfer da cynnig darparu'r ddalen wybodaeth a'r ffurflen gydsynio mewn fformatau eraill e.e. print bras, Braille, sain, ac mewn ieithoedd heblaw Saesneg.

Dylai'r ddalen wybodaeth gynnwys:

**Teitl yr Astudiaeth (a Rhif Cyfeirnod os yw'n berthnasol)**

**Paragraff gwahodd**
Cynhwyswch y paragraff cyflwynaidol canlynol:
*Hoffen ni eich gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil sydd wedi'i henwi uchod. Cyn i chi benderfynu cymryd rhan neu beidio, mae'n bwysig eich bod yn deall pam mae'r ymchwil yn cael ei gwneud a beth fydd yn ei golygu. Felly cymerwch amser i ddarllen yr wybodaeth ddilynol yn ofalus.*

**Beth ydy pwrpas yr astudiaeth?**
Rhowch gefndir byr y prosiect a nod y prosiect. Cynhwyswch fanylion y dyddiad dechrau, hyd y prosiect ac amlinellwch ddyluniad cyffredinol y prosiect.

**Pam ydw i wedi cael fy ngwahodd i gyfranogi?**
Esboniwch sut cafodd yr unigolyn ei ddewis i gymryd rhan yn y prosiect a faint o bobl eraill byddwch chi'n gofyn iddynt gymryd rhan.

Os oes unrhyw waharddiadau i gyfranogiad, dylech eu hamlinellu fel bod darpar gyfranogwyr yn ymwybodol o unrhyw resymau na ddylent gyfranogi, neu sy'n eu heithrio rhag cyfranogiad.

**Oes rhaid i mi gymryd rhan?**
Esboniwch fod cymryd rhan yn y prosiect yn gwbl wirfoddol ac y bydd gofyn i gyfranogwyr lenwi a llofnodi Ffurflen Cydsyniad Cyfranogwr cyn unrhyw gyfranogiad.

Esboniwch fod ganddynt hawl i dynnu'n ôl o'r prosiect ar unrhyw adeg ac esboniwch ba gamau byddwch chi'n eu cymryd os byddant yn tynnu'n ôl. Wrth wneud hynny, byddwch yn ymwybodol y bydd amseriad eu cais yn effeithio ar ba gamau gallwch chi eu cymryd, er enghraifft, ar ôl i chi dynnu enwau o'r data a'i ddadansoddi yn aml nid yw'n bosibl tynnu data cyfranogwr penodol. Os oes modd, cynhwyswch yn y ddalen wybodaeth fanylion pryd rydych yn bwriadu dechru tynnu enwau a dadansoddi.

Rhowch wybod iddynt fod Ffurflen Tynnu'n Ôl Cyfranogwyr ar gael a'i bod yn cynnwys mwy o fanylion am ba gamau bydd y Brifysgol yn eu cymryd yn dilyn cais i dynnu'n ôl.

**Beth fydd cyfranogiad yn ei golygu?**
Esboniwch beth fyddwch yn gofyn i'r unigolyn ei wneud. Bydd efallai'n ddefnyddiol rhoi hyn mewn cyd-destun trwy esbonio'ch dulliau casglu data ond cadwch mewn cof y dylai'r wybodaeth fod yn hawdd i berson lleyg ei deall.

Rhowch fanylion faint o amser fydd dan sylw a nodwch ble bydd y gweithgareddau'n digwydd.
Rhowch ddigon o wybodaeth am unrhyw gyfweliadau ymchwil, grwpiau ffocws neu holiaduron i sicrhau bod cyfranogwyr yn llawn ymwybodol o beth fydd gofyn iddynt ei wneud.
Sicrhewch eich bod yn rhoi gwybod i gyfranogwyr os bwriadwch recordio cyfweliadau neu grwpiau ffocws.

**Oes unrhyw risgiau ynghlwm wrth gymryd rhan?**
Disgrifiwch unrhyw risgiau sydd ynghlwm wrth gyfranogiad yn y prosiect gan ddefnyddio iaith y bydd y cyfranogwr yn ei deall yn hawdd.
Cynhwyswch fanylion y tebygolrwydd y bydd risgiau'n codi a'r camau rydych wedi'u cymryd i reoli'r risgiau.
Nodwch y bydd y Prif Ymchwilydd yn hapus i ateb unrhyw ymholiadau am beth sydd ynghlwm wrth yr astudiaeth (dylai manylion cysylltu llawn y PY gael eu darparu ar ddiwedd y Ddalen Wybodaeth).

**Oes unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â chymryd rhan?**
Disgrifiwch y buddion uniongyrchol i'r cyfranogwr yn ogystal â buddion ehangach (e.e. gwella dealltwriaeth o bwnc yr ymchwil).

Ran amlaf, ni fyddai'r Brifysgol yn disgwyl i unrhyw gydnabdydiaeth gael ei chynnig i gyfranogwyr ond, os ydych yn bwriadu cynnig iawndal neu wobr am gyfranogiad, dylech roi manylion hyn yma.  Sylwch, fodd bynnag, fod rhaid i fanylion unrhyw iawndal neu gydnabyddiaeth fod wedi'u cynnwys yn eich cais moeseg a'u cyeradwyo gan y panel moeseg.

Rhaid ei gwneud yn glir na fydd unrhyw iawndal neu gydnabyddiaeth yn cael eu colli os bydd y cyfranogwr yn penderfynu tynnu'n ôl o'r prosiect.

**Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r prosiect ymchwil?**
Nodwch sut y caiff canlyniadau'r ymchwil eu defnyddio e.e. erthygl cyfnodolyn, adroddiad i ariannwr y prosiect, yn rhan o draethawd estynedig, ac ati.

**Sut bydd fy nata a'm preifatrwydd yn cael eu diogelu?**
Datganwch y bydd cyfrinachedd yn cel ei gynnal trwy gydol yr astudiaeth, oni bai eich bod yn methu gwarantu hynny. Lle na ellir gwarantu cyfrinachedd, esboniwch y rheswm pam.
Rhowch fanylion sut a ble y bydd data cyfranogwyr yn cael ei storio a phwy fydd â mynediad iddo. Cofiwch ofyniad Met Caerdydd fod yn rhaid storio unrhyw ddata nad yw'n ddi-enw a gynhyrchir gan fyfyrwyr israddedig ar gyfrif OneDrive Met Caerdydd y myfyriwr perthnasol.
Dylech gasglu dim ond data sy'n ofynnol i gwblhau'r astudiaeth a dylech ei gwneud yn glir yma mai dyna sy'n digwydd.
Rhowch fanylion sut a phryd y tynnir enwau o'r data.
Cynhwyswch fanylion y cyfnod y caiff y data ei ddal (fel arfer, dwy flynedd ar ôl graddio fydd hyn i brosiectau israddedigion lle bo'r data wedi'i storio yn OneDrive).
Os yw'ch prosiect yn dod o dan ofynion cadw data corff allanol, sicrhewch eich bod yn dangos eich bod wedi cydymffurfio â'r gofynion hyn.

**Pwy sy'n ymwneud â'r prosiect?**
Esboniwch eich bod yn cynnal yr ymchwil naill ai fel myfyriwr neu aelod o staff ym Met Caerdydd.

Rhowch enwau ac ymlyniadau aelodau'r tîm ymchwil.

Rhowch fanylion unrhyw arianwyr y prosiect.

Dwedwch fod y prosiect wedi'i gymeradwyo gan [rhowch enw'r Pwyllgor Moeseg a roddodd gymeradwyaeth].

**Os oes gennyf unrhyw gwestiynau, pwy dylwn i gysylltu â nhw am fwy o wybodaeth?**
Rhowch enw a chyfeiriad e-bost Met Caerdydd y PY.

**Diolch**
Cofiwch ddiolch i'r unigolyn am gymryd amser i ddarllen y ddalen wybodaeth.

Os ydych chi'n bwriadu casglu gwybodaeth a ddosberthir fel data personol sensitif sy'n adnabyddadwy neu a allai o bosibl gael ei holrhain yn ôl i unigolyn, rhaid i chi roi gwybod i gyfranogwyr am hyn a sicrhau cydsyniad ysgrifenedig penodol oddi wrthynt.

Os yw'ch astudiaeth wedi'i seilio ar holiadur, bydd cydsyniad i gyfranogi yn cael ei gyfleu gan gwblhau'r holiadur, felly nid oes angen ffurflen gydsynio ar wahân. Os nad ydych chi'n casglu data personol sensitif dylech ddatgan ar y Ddalen Wybodaeth bod cwblhau a chyflwyno holiadur yn cyfleu cydsyniad i gyfranogi yn y prosiect. Fodd bynnag, os bydd eich holiadur yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r math hwn o wybodaeth, dylech gynnwys y datganiad canlynol yng nghorff eich holiadur:

*Caiff unrhyw wybodaeth a rowch ei thrin yn unol ag egwyddorion diogelu data at y dibenion sy'n cael eu henwi yn y Ddalen Wybodaeth Cyfranogwyr. Bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn prosesu'ch data personol yn unol ag Erthygl 6(1)(a) ac Erthygl 9(2)(a) y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 sy'n pennu na chaiff eich data personol ei brosesu ond gyda'ch cydsyniad penodol chi. Drwy lofnodi'r ffurflen hon ac ateb y cwestiynau sydd ynddi rydych yn cadarnhau eich bod wedi deall y rhesymau dros gasglu'ch data a'ch bod yn fodlon i'r astudiaeth fynd yn ei blaen. Sylwch fod gennych chi'r hawl i dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Pe baech chi am arfer yr hawl yna, cysylltwch â [rhowch fanylion cysylltu'r unigolyn perthnasol]*

Rhowch enw a manylion cysylltu'r person y dylai cyfranogwyr gysylltu â nhw mewn argyfwng a phwy dylent gysylltu â nhw i gael manylion pellach am y prosiect. Dylech roi eich manylion cysylltu yn y Brifysgol ac NID eich cyfeiriad e-bost personol na'ch rhif ffôn symudol. Cynghorir myfyrwyr i gynnwys manylion cysylltu'r Brifysgol ar gyfer eu goruchwyliwr.

**Canllawiau am gynhyrchu posteri, taflenni a negeseuon e-bost i recriwtio cyfranogwyr**

Dylai recriwtio cyfranogwyr gael ei wneud yn y cyfryw fodd bod cyfranogiad wir yn wirfoddol ac nid oes unrhyw orfodaeth, penodol neu ymhlyg.

Mae'r pwyllgor yn ffafrio defnydd dulliau anuniongyrchol yn hytrach na cheisiadau unigol wyneb yn wyneb i ddarpar wirfoddolwyr.  Yn ddelfrydol dylai unigolion allu cymryd cam positif i gyfranogi yn hytrach na wynebu anghysur troi cais uniongyrchol i lawr.

Gall posteri a thaflenni gael eu defnyddio i recriwtio cyfranogwyr.  Gall y deunydd ddod i mewn i sawl categori:

- Posteri i'w harddangos o fewn y Brifysgol
- Posteri i'w harddangos mewn sefydliadau eraill (er y byddai angen cymeradwyaeth NRES neu MREC i recriwtio yn adeiladau'r GIG)
- Taflenni
- Hysbysebion mewn papurau newydd, cylchgronau ac ati

Dylid bod yn ofalus wrth ysgrifennu testun i ystyried natur y grŵp targed, gan sicrhau bod terminoleg briodol yn cael ei defnyddio.  Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddeunydd sy'n debygol o gael ei weld gan grwpiau hawdd eu niweidio, ac yn arbennig hysbysebion sydd i'w cyhoeddi mewn cylchgronau â chylchrediad mawr ac yn y blaen.

Dylai poster/taflen neu hysbyseb da gynnwys y nodweddion canlynol:

- Dylai'r deunydd fod yn ddeniadol yn weledol gyda phennawd clir byr ar ffurf gwahoddiad a gall gynnwys lluniau
- Dylai digon o wybodaeth gael ei rhoi i ddarpar gyfranogwyr wybod yn fras beth sydd dan sylw
- Dylai digon o wybodaeth gael ei rhoi am gysylltu â'r prosiect

Yn achos pob poster/taflen, mae'r pwyllgor yn mynnu:

- Eu bod yn cynnws dull adnabod i ganiatáu cyfeirio at y cofnodion a ddelir gan y pwyllgor.
  Yr isafswm gofyniad yw rhif cyfeirnod y prosiect.
- Rhaid i gopi o'r poster gael ei anfon at y pwyllgor i'w roi ar gadw gyda phapurau'r cais, i'w adolygu gan y pwyllgor a rhaid iddo gael ei gymeradwyo cyn cael ei ddefnyddio.
- Rhaid i bosteri sydd i'w harddangos mewn sefydliadau eraill tu allan i'r Brifysgol gael eu hanfon, gyda llythyr cyflwyno, at swyddogion gweinyddol y sefydliad hwnnw er gwybodaeth.

Dylai negeseuon e-bost recriwtio fodloni'r gofynion a amlinellir uchod a pheidio â bod yn or-hir.

Dylai negeseuon e-bost arfaethedig gael eu darparu i bwyllgor eich Ysgol am gymeradwyaeth ynghyd â chyfiawnhad dros ddefnyddio'r dull hwn o recriwtio cyfranogwyr a'r rhestri postio targed arfaethedig. Rhaid i e-bost gael ei gymeradwyo cyn y gall gael ei gylchredeg.